# Cwestiynau ac Atebion i Ddarparwyr

# Asiantaeth Recriwtio'r Plant

# Adduned Cymru Gyfan - Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth - [MoG]

| Cwestiynau | Atebion |
|---|---|
| A yw'r MoG yn berthnasol i weithwyr sy'n byw yn Lloegr ond sy'n dymuno gweithio yng Nghymru? | Ydy. Mae'r MoG yn cwmpasu holl Weithwyr Cymdeithasol y Plant sy'n dymuno gweithio yng Nghymru.<br><br>Mae cyfarwyddwyr wedi cytuno i beidio â defnyddio gweithwyr asiantaeth sydd wedi gadael contract parhaol o fewn Awdurdod Lleol i gymryd contract asiantaeth dros dro am o leiaf 6 mis ar ôl eu diwrnod olaf o gyflogaeth.<br><br>Mae hyn yn adlewyrchu dull y mae MoGau yn Lloegr wedi'i fabwysiadu. |
| A yw'r MoG yn berthnasol i weithwyr cymdeithasol sydd wedi'u cofrestru gyda Gwaith Cymdeithasol Lloegr ond yn gweithio yng Nghymru? | Ydy. Nid yw Cofrestru yn rhan o egwyddorion y MoG |
| Beth yw'r diffiniad o Uwch-ymarferydd Gweithiwr Cymdeithasol Uwch, Dirprwy Reolwr Tîm a Rheolwr Tîm? | Nodir hyn yn y MoG fel a ganlyn:-<br><br>**Gweithiwr Cymdeithasol**<br>Gweithiwr Cymdeithasol cofrestredig sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cyffredinol o ran gwaith cymdeithasol o ddydd i ddydd.<br>Uwch-weithiwr Cymdeithasol<br>• Uwch-ymarferydd. Gweithiwr Cymdeithasol Plant cofrestredig sy'n cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol Plant eraill gydag achosion a chanllawiau |

| | |
|---|---|
| | rheoli achosion, ac a all fod â rhywfaint o gyfrifoldeb rheolwr llinell.<br>• Gweithiwr Cymdeithasol cofrestredig sy'n gyfrifol am ddirprwyo ar ran Rheolwr Tîm ac a all fod â chyfrifoldeb rheoli llinell penodol.<br>• Uwch-weithiwr Cymdeithasol Cofrestredig, y rhoddir cyfrifoldeb penodol iddo am gynnal llwyth achosion cymhleth.<br><br>**Rheolwr y Tîm**<br>Gweithiwr Cymdeithasol cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r tîm gwaith cymdeithasol yn llawn o ddydd i ddydd. |
| A allwch gadarnhau bod rolau Swyddog Adolygu Annibynnol wedi'u heithrio gan nad yw'r rhain wedi'u nodi o dan y categorïau a amlinellir yn Adduned Cymru Gyfan? | Gallwn, gallwn gadarnhau nad yw'r Swyddog Adolygu Annibynnol wedi'i gynnwys yn y MoG |
| A yw cyfraddau gweithwyr asiantaeth presennol yn cael eu newid? | Nid yw cyfraddau a gytunwyd cyn 1 Mai 2023 yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y MoG.<br><br>Fodd bynnag, mae Awdurdodau Lleol hefyd wedi cytuno i ddod ag unrhyw weithwyr asiantaeth presennol sy'n rhagori ar gyfraddau cyflog newydd yr Adduned  Cymru Gyfan yn unol â'r cyfraddau tâl newydd cyn gynted â phosibl. |
| A yw'r "cyfraddau cyflog" a amlinellir yn Atodiad 1 yn ymwneud â chyfraddau **Talu Wrth Ennill** yn hytrach na'r cyfraddau a ddefnyddir gan gwmnïau Ymbarél? | Ydyn, mae'r "cyfraddau cyflog" a amlinellir yn ***Atodiad 1***: ***Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan*** yn ymwneud â chyfraddau **Talu Wrth Ennill** yn hytrach na'r cyfraddau a ddefnyddir gan Gwmnïau Ymbarél |
| A yw'r cyfraddau a amlinellir yn Atodiad 1 yn ymwneud â chyfraddau Talu Wrth Ennill, os felly, a fyddai cyfradd ambarél yn uwch? | Ydyn, y cyfraddau a amlinellir yn ***Atodiad 1***: ***Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan*** yw'r gyfradd Talu Wrth Ennill. Mae modd addasu'r rhain wedyn i gyfraddau ambarél. |

| | |
|---|---|
| Beth fydd y cyfraddau tâl newydd ar gyfer lleoliadau gweithwyr cymdeithasol asiantaeth newydd? | Dim ond y cyfraddau tâl a delir i'r Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth a nodir yn y MoG ac ni ddylai hyn fod yn fwy na'r rhai a nodir yn ***Atodiad 1***: ***Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan.***<br><br>**Nid ydym wedi nodi cyfraddau tâl.** |
| A fydd cyfraddau tâl yn wahanol i'r rheiny â lefel amrywiol o brofiad?<br><br>Er enghraifft, os oes gan weithiwr asiantaeth 3 blynedd + profiad ôl-gymhwyso, a fyddai'n cael yr un gyfradd dâl â rhywun sy'n gwneud yr un swydd gyda 10 mlynedd + o brofiad ôl-gymhwyso? | Nid yw hyd y cyfnod gwasanaeth yn ffactor o safbwynt pennu cyfraddau.<br><br>Mae categorïau'r cyfraddau tâl wedi'u nodi yn y MoG. |
| Ar hyn o bryd mae yna weithwyr cymdeithasol asiantaeth yn gweithio yng Nghymru sydd â llai na 3 blynedd o brofiad ôl-gymhwyso. Pe bai eu contract yn dod i ben, a fydd modd iddynt symud i dîm arall o fewn yr Awdurdod Lleol neu i Awdurdod arall yng Nghymru? | Gan gydnabod pa mor bwysig yw hi i Weithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso gael profiad ymarferol wrth barhau i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol, ni fydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn caniatáu defnydd gan asiantaeth o Weithwyr Cymdeithasol Plant â llai na thair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso waeth beth fo'u llwybr i'r proffesiwn.<br><br>Fodd bynnag, bydd Awdurdodau Lleol yn annog Gweithwyr Cymdeithasol o asiantaethau i ymgymryd â swyddi gwag parhaol o fewn yr Awdurdodau Lleol perthnasol. |
| Os oes gweithiwr asiantaeth yn gweithio mewn Awdurdod Lleol sydd â llai na thair blynedd o brofiad ar ôl ennill cymhwyster, a fydd yn gallu parhau yn y swydd? | Nid yw contractau a gytunwyd cyn 1 Mai 2023 yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y MoG hwn.<br><br>Fodd bynnag, bydd Awdurdodau Lleol yn adolygu'r trefniadau ar y cyfle cyntaf posibl ac yn ystyried a yw'r unigolion hyn yn gallu llenwi swyddi parhaol. |
| Mae Adduned Cymru Gyfan yn amlinellu cyfraddau tâl gweithiwr asiantaeth ond beth yw'r cyfraddau tâl cysylltiedig? | Dim ond y cyfraddau tâl a delir i'r Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth a nodir yn y MoG ac ni ddylai hyn fod yn fwy na'r rhai a nodir yn ***Atodiad 1***: ***Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan.*** |

| | |
|---|---|
| | **Nid ydym wedi nodi cyfraddau tâl.** |
| Sut olwg fydd ar yr “wythnos waith” ar gyfer gweithwyr asiantaeth sy’n byw yn Lloegr ond y bydd angen iddynt deithio i’w man gwaith? | Nid yw gofynion yr "wythnos waith" yn rhan o egwyddorion y MoG |
| A fydd treuliau ychwanegol, megis costau llety yn cael eu talu | Ni fydd treuliau ychwanegol, megis llety, yn cael eu talu. |
| Mae Adduned Cymru Gyfan yn gofyn am ddau eirda ar gyfer gweithwyr asiantaeth. A allwch gadarnhau bod angen i'r rhain gwmpasu'r cyfnod o 3 blynedd? | Gallwn, bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu dau eirda ar gyfer y cyfnod o 3 blynedd. |
| A allwch chi gadarnhau pa awdurdodau nad ydynt wedi cofrestru i'r addewid. | Mae pob un o'r 22 Awdurdod Lleol wedi cofrestru i'r MoG |
| Sut bydd hyn yn gweithio ar y llwyfannau gwerthwr niwtral? | Mae'r MoG ond yn nodi bod Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth yn cael eu talu ar gyfraddau nad ydynt yn fwy na'r rheiny a nodir yn ***Atodiad 1***: ***Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan.***<br><br>**Ni fydd unrhyw effaith ar** lwyfannau gwerthwyr niwtral ? |
| Gallwn weld bod Adduned Cymru Gyfan wedi darparu templed geirda i'w ddefnyddio. Ydyn ni'n gallu newid y templed i gynnwys gwybodaeth ychwanegol, os felly, a oes modd ei gynnwys ar bapur pennawd ein cwmni? | Ydych, rydym yn fodlon eich bod yn darparu "gwybodaeth ychwanegol" yn unol â pholisi eich cwmni. |
| A fydd cyfarfodydd adolygu MoG rheolaidd yn cael eu cynnal ag Asiantaethau/Gweithwyr Cymdeithasol Asiantaethau | Bydd,s yn ôl yr angen |
| A oes pwynt cyswllt ar gyfer Adduned Cymru Gyfan? | Oes - Mae Tîm Adnoddau Canolog wedi'i sefydlu. Gellir cysylltu â'r Tîm drwy e-bostio: allwalespledge@adss.cymru |